TGAU

# 3010N10-1

**DYDD GWENER, 12 IONAWR 2024 – BORE**

# LLENYDDIAETH GYMRAEG

## UNED 1: Barddoniaeth

## HAEN SYLFAENOL

**1 awr 15 munud a'ch amser estynedig**

ⓗ WJEC CBAC Cyf.

PJ*(W24-3010N10-1-MLP-A3-36)

## DEUNYDDIAU YCHWANEGOL

**Llyfryn ateb 16 tudalen CBAC (pinc).**

## CYFARWYDDIADAU I YMGEISWYR

**Defnyddiwch inc neu feiro du, neu eich dull arferol.**

**UN CWESTIWN GORFODOL ar farddoniaeth sydd ar y papur hwn.**

**Ni allwch ddefnyddio geiriaduron.**

**Dylech dreulio 15 munud yn cynllunio eich ateb.**

**(Trowch y dudalen)**

## GWYBODAETH I YMGEISWYR

**Mae 40 marc am y cwestiwn hwn.**

**Bydd trefn a chywirdeb eich ysgrifennu yn cael eu hystyried yn rhan o'r asesiad.**

(Trowch y dudalen)

1. Darllenwch y DDWY gerdd ganlynol yn ofalus.
   Yn y cerddi, mae'r beirdd yn sôn am eu hymateb i reolau.

   CYMHARWCH y DDWY gerdd gan ddangos sut maen nhw'n DEBYG a/neu'n WAHANOL.
   Dylech wneud hyn drwy:

- ysgrifennu am gynnwys y ddwy gerdd yn eich geiriau eich hun, er enghraifft:

  – Dywedwch beth yw'r stori yn y cerddi.
  – Beth sy'n debyg/wahanol yn y ddwy?
  – Beth ydy neges y ddau fardd i ni?

(Trowch y dudalen)

- **edrych ar y ffordd mae'r beirdd wedi ysgrifennu'r cerddi gan chwilio am o leiaf bedair nodwedd arddull / mesur a dweud pam maen nhw'n effeithiol**

- **nodi pa UN o'r ddwy gerdd apeliodd fwyaf atoch chi gan roi rhesymau dros eich barn.**

**Wrth ateb, cofiwch ddyfynnu'n briodol a chyfeirio at enghreifftiau penodol i gefnogi'ch sylwadau. [40 marc]**

**(Trowch y dudalen)**

# Rhaid Peidio Dawnsio...

**Rhaid peidio dawnsio yng Nghaerdydd**
**rhwng wyth a deg y bore,**
**mae camerâu yr Heddlu Cudd**
**a’r Cyngor am y gore**
**yn edrych mas i weld pwy sydd**
**yn beiddio torri’r rheol**
**na chaiff neb ddawnsio yng Nghaerdydd**
**ar stryd na pharc na heol.**

**Mae dawnsio wedi deg o’r gloch**
**yn weithred a gyfyngir**
**i chwarter awr mewn ’sgidiau coch**
**mewn mannau lle’r hebryngir**
**y dawnswyr iddynt foch ym moch,**
**heb oddef stranc na neidio,**
**ac erbyn un ar ddeg o’r gloch**
**rhaid i bob dawnsio beidio.**

**(Trowch y dudalen)**

**Ond ambell Chwefror ar ddydd Iau,
pan fydd y niwl a’r barrug
yn fwgwd am y camerâu
fel bo’r swyddogion sarrug
yn swatio’n gynnes yn eu ffau
gan ddal diodydd poethion,
mae’r stryd yn llawn o naw tan ddau
o ddawns y sodlau noethion.**

**EMYR LEWIS**

**(Trowch y dudalen)**

# Rheolau

Yma'n yr ysgol, rhwng naw a thri,
mae'r rheolau i bawb, ond dim i fi…

'Dim ffôn symudol yn y dosbarthiadau.'
Ond dwi'n clywed y crynu yn fy mhoced innau.

'Dim neidio'r ciw.' Ond bob amser cinio
dwi'n hwylio i'r blaen, a does neb yn cwyno.

'Dim gadael gwersi.' Ond dwi'n *sleifio yma
drwy'r holl goridorau fel *cadno yn hela.

'Siwmper las ac esgidiau du.'
Ond mae 'nillad i yn *lliwiau lu.

(Trowch y dudalen)

‘Dim gweiddi allan - rheol yw rheol.’
Ond fi ydy’r gwaeddwr mwya’n yr ysgol.

‘Dim anghofio gwaith cartref.’ Ond yn ôl yr hanes
dwi erioed wedi rhoi llyfr i mewn i’r athrawes.

“Pam torri rheolau?” dwi’n eich clywed yn dweud.
“Achos fi ydy’r Pennaeth, ac mae hawl gen i wneud!”

NIA LLWYD

*sleifio – mynd yn dawel
*cadno – llwynog
*lliwiau lu – llawer o liwiau

DIWEDD Y PAPUR